Y Pwyllgor Cydraddoldeb
a Chyfiawnder Cymdeithasol
—
Equality and Social Justice
Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder
Cymdeithasol, y Trefnydd
a'r Prif Chwip

21 Chwefror 2025

Annwyl Jane,

Strategaeth a Fframwaith Monitro Tlodi Plant

Roedd yr Aelodau'n ddiolchgar am y sesiwn briffio technegol gan swyddogion ar 10 Chwefror, a nodwyd yr angen am ragor o wybodaeth ac eglurder ynghylch agweddau ar y Fframwaith Monitro Tlodi Plant. Cytunodd swyddogion i wneud gwaith dilynol mewn sawl maes lle maent yn ymwneud â materion ffeithiol, ond mae'n fwy priodol cyfeirio rhai o'n cwestiynau atoch chi fel y gweinidog cyfrifol. Yn y cyd-destun hwn, byddem felly'n gwerthfawrogi rhagor o wybodaeth fel y nodir isod.

Cytunodd swyddogion i ddarparu:

- y gyfradd gyfredol ar gyfer y 7 mesur a restrir ym maes safon byw y Fframwaith a data am dueddiadau mewn perthynas â'r rhain; a
- nodyn ysgrifenedig yn crynhoi'r gwahaniaeth rhwng allbynnau a chanlyniadau a'r ffyrdd y mae'r rhain yn arwyddocaol yng nghyd-destun y fframwaith monitro.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r canlynol:

- esboniad o'r rhesymeg sy'n sail i ganolbwyntio ar ddangosyddion cenedlaethol a hepgor dangosyddion perthnasol eraill,
- pam mae'r mesurau canlynol wedi'u heithrio neu nad oes modd eu cynnwys yn y Fframwaith;
    - yn y maes cymunedau cynhwysol: mesurau ar nifer y plant mewn tlodi sydd mewn perygl o fod yn ddigartref; a nifer y plant mewn tlodi yn ôl deiliadaeth tai;
    - yn y maes addysg: canran y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim sy'n astudio Safon Uwch/yn mynd i'r brifysgol;

        - yn y maes llesiant: mesurau ar gyfran y plant sy'n cael gofal ysbyty wedi'i gynllunio/heb ei gynllunio neu gyfraddau pydredd dannedd ymhlith plant
    - pam na chafodd y dangosydd cenedlaethol ar gyfer canran y plant â dau neu fwy o ymddygiadau ffordd iach o fyw ei gynnwys fel un o'r dangosyddion perthnasol yn y fframwaith.
    - pam y cafodd canran y plant ysgol uwchradd sy'n bwyta brecwast bob diwrnod o'r wythnos yn ôl cyfoeth teuluol ei gynnwys fel mesur, o ystyried bod amryw resymau pam nad yw plant yn y grŵp oedran hwn yn bwyta brecwast.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych a byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech anfon ymateb erbyn 14 Mawrth.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol